

Cartrefi Gaeaf, Rhifyn 9 Caerffili

Adnewyddu Lle Rowan



Y Cyng. David Poole (Dirprwy Arweinydd y Cyngor a'r Aelod Cabinet dros Dai) gydag aelod y ward y Cyng. Carl Cuss a Cuddy Demolition

Mae ein rhaglen adnewyddu yn Lle Rowan, Rhymni, yn dal i sicrhau gweddnewid yn yr ardal. Mae'r datblygiadau diweddar yn cynnwys dymchwel un bloc o fflatiau a garejys. Bydd gwelliannau amgylcheddol, wedi'u seilio ar adborth gan breswylwyr lleol, yn dechrau yn y fan hon cyn bo hir.

Ategwyd rhaglen Lle Rowan gan £1 miliwn ychwanegol a ddarparwyd gan Gronfa Trechu Tlodi Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid Llywodraeth Cymru. Defnyddiwyd rhan o'r cyllid hwn hefyd i adnewyddu Canolfan Adnoddau Hafod Deg ar Stryd Fawr Rhymni, gan greu canolbwynt i bobl leol gael amrywiaeth o wasanaethau.

Oherwydd yr ymagwedd rydym wedi'i mabwysiadu at adnewyddu Lle Rowan cawsom ein rhoi ar y rhestr fer yn y categori Cydweithredu yng Ngwobrau Tai Cymru 2016, a drefnwyd gan Sefydliad Tai Siartredig (STS) Cymru. Roedd y rhestr fer yn cydnabod ein hymdrechion wrth weithio mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill i sicrhau bod y buddsoddiad yn Lle Rowan yn helpu i

weddnewid bywydau pobl leol, yn ogystal â gwella eu hamgylchedd ffisegol.

Hefyd rydym wedi croesawu rhai o'r tenantiaid newydd cyntaf i'r fflatiau sydd wedi'u hadnewyddu. Mae Linda Williams wedi symud, gyda'i phartner, i'r un fflat y bu ei thad yn byw ynddo. Dywedodd Linda "Mae fy chwaer yn byw yn Lle Rowan felly rwy wedi gweld y gwaith gwella'n mynd ymlaen pryd bynnag rwy wedi ymweld â hi. Rwy'n wirioneddol fodlon ar fy fflat newydd ac wedi dechrau gwneud ffrindiau gyda'r cymdogion yn barod. Rydyn ni wir yn hapus yma ac yn mwynhau rhoi'r cyffyrddiadau olaf i'n cartref newydd."

Mae nifer o gartrefi cyngor ar gael i'w rhentu yn Lle Rowan o hyd. Mae'r cartrefi sydd ar gael i'w rhentu'n gymysgedd o fflatiau â dwy ystafell wely ar y llawr gwaelod a'r llawr cyntaf; mae pob un wedi cael ei adnewyddu'n llwyr ac mae gan bob fflat ei ardd breifat ei hun. Mae rhai meini prawf cymhwysedd penodol ar gyfer y cartrefi hyn; cysylltwch â Swyddfa Tai Cwm Rhymni Uchaf i gael mwy o wybodaeth drwy ffonio 01443 873535 neu anfon neges e-bost at sdacwmrhymniuchaf@caerffili.gov.uk



Y Cyng. David Poole a'r Cyng. Carl Cuss yn ymweld â Linda Williams yn ei chartref newydd



yourccbchomes
Dilynwch ni ar Twitter.



yourcaerphillyhomes
'Hoffwch' ni ar Facebook.

Caerphilly Homes
Cartrefi Caerffili



Dywedoch chi, gwnaethom ni...

Mae'r Bartneriaeth Gwella Tai yn grŵp o denantiaid sy'n gweithio gyda ni i wella gwasanaethau tai. Mae'r Bartneriaeth yn canolbwyntio ar brofiadau go iawn tenantiaid a lesddeiliaid sy'n gofyn am wasanaethau gan Gartrefi Caerffili ac yn eu cael. Mae'n cynnig 'pâr o lygaid newydd' ac yn darparu gwybodaeth werthfawr i helpu swyddogion i wella gwasanaethau, trwy ddeall beth sy'n bwysig i denantiaid.

Ers mis Ebrill y llynedd, mae'r Bartneriaeth wedi adolygu dau wasanaeth: y Gwasanaeth Caniatâd Landlord – lle mae tenantiaid neu lesddeiliaid eisïau gwneud gwelliannau i'w cartrefi; a'r Gwasanaeth Cymorth i Denantiaid – lle mae swyddogion yn gweithio gyda thenantiaid i helpu i reoli eu tenantiaethau ac yn rhoi cyngor a chymorth. Dyma rai o'r newidiadau a wnaethpwyd o ganlyniad i waith y Bartneriaeth:



Caniatâd Landlord

Dywedoch chi....."Rwy eisïau anfon cais trwy'r sianel cyfathrebu rwy'n ei dewis"

Yn awr gallwch siarad â'ch Swyddog Tai (pan mae'n dod i'ch gweld), galw heibio i'r Swyddfa Tai leol, ffonio, ysgrifennu neu e-bostio'ch cais am Ganiatâd Landlord.

Dywedoch chi "Rwy eisïau gwybod pa mor hir fydd hi cyn imi gael penderfyniad"

Rydyn ni wedi cyflwyno amserlenni i roi gwybod ichi pa mor hir fydd hi cyn i benderfyniad gael ei wneud.

Dywedoch chi "Os oes angen ichi anfon Syrfêwr, rwy eisïau ichi ddweud wrthyf i pryd mae'n dod"

Erbyn hyn rydyn ni'n cynnig amserau apwyntiad os oes angen i Syrfêwr ddod i'ch gweld.

Dywedoch chi "Rwy eisïau i'r cyngor ddysgu o fy mhrofiad i drwy ofyn imi pa mor dda y gwnaethoch chi"

Rydyn ni wrthi'n llunio arolwg boddhad byr fel y gallwn gael eich barn chi am y gwasanaeth a ddarparwyd gennym.

Gwasanaeth Cymorth i Denantiaid

Dywedoch chi "Cyn ichi ddod i'm gweld rwy eisïau ichi ddweud wrthyf i sut y gallech fy helpu ac esbonio beth fydd yn digwydd nesaf"

Wrth drefnu dod i'ch gweld, byddwn yn esbonio'n glir gyda beth y gall y Swyddog Cymorth i Denantiaid eich helpu ac yn rhoi gwybodaeth am sut y gallwch baratoi ar gyfer yr ymweliad.

Dywedoch chi "Rwy eisïau ichi gadarnhau'r ymweliad trwy'r sianel cyfathrebu rwy'n ei dewis"

Erbyn hyn rydyn ni'n anfon llythyrau apwyntiad mewn neges destun neu lythyr neu drwy sgwrs dros y ffôn (nid negeseuon post llais ar ffônau symudol).

Dywedoch chi "Rwy eisïau ichi ddweud wrthyf i pwy fydd yn dod i'm gweld a gwrando arnaf i os oes gen i ddewis penodol o ran pwy fydd yn dod"

Wrth inni drefnu'r apwyntiad Swyddog Cymorth i Denantiaid gyda chi, byddwn yn dweud wrthyf enw'r Swyddog fydd yn dod i'ch gweld ac yn trafod a oes gennych ddewis penodol o ran pwy fydd yn dod.

Dywedoch chi "Pan ddewch i'm gweld, rwy eisïau ichi roi crynodeb o beth fydd yn digwydd nesaf"

Erbyn hyn mae'r Swyddog Cymorth i Denantiaid yn gadael taflen camau gweithredu gyda rhifau ffôn defnyddiol, crynodeb o beth drafodwyd yn ystod yr ymweliad a gwybodaeth am beth fydd yn digwydd nesaf, i chi ei chadw i'ch atgoffa chi.

Os hoffech ymaelodi â grŵp y Bartneriaeth Gwella Tai neu gael gwybod mwy am ei waith, cysylltwch â'r Tîm Cynnwys Tenantiaid a'r Gymuned ar 01495 235011 neu drwy e-bost cyfranogiadtenantiaid@caerffili.gov.uk

Cyhoeddi enillwyr gwobrau

Cafodd tenantiaid o bob rhan o fwrdeistref sirol Caerffili eu cydnabod mewn seremoni wobrwyo arbennig ym mis Medi. Eleni cynhaliwyd Noson Ddathlu Cartrefi Caerffili yn Neuadd Goffa Trecelyn; cyhoeddwyd enillwyr ein cystadleuaeth garddio gyntaf, ynghyd â'r Gwobrau blynyddol Gweddnewid Bywydau a Chymunedau, a gynhaliwyd am y trydydd tro.



Enillwyr y gystadleuaeth garddio:

Y fasged grog / pot / cynhwysydd gorau:

- Enillydd - Deanne Jurich, Rhydri
- Ail – Steve Perkins, Tredegar Newydd
- Trydydd – Rosalind Price-Edwards, Parc Lansbury

Yr ardd orau:

- Enillydd - Sandra a David Williams, Abercarn
- Ail – William Rothwell, Markham
- Trydydd – David John Davies, Parc Lansbury

Yr ardd gymunedol orau:

- Enillydd - Taraggan, Bargod
- Ail – Canolfan Adnoddau Hafod Deg, Rhymni
- Trydydd – Trevelyan Court, Parc Lansbury

Enillwyr Gwobrau Gweddnewid Bywydau a Chymunedau:

Gweddnewid Bywydau – Gwobr grŵp:

- Enillydd – Grŵp Fforwm Abertyswg
- Ail safle – Cyfeillion Gwyddon Court a The Ranks
- Ail safle – Ysgol Crymlyn Lefel Uwch

Gweddnewid Bywydau – Gwobr unigol:

- Enillydd - Roger Rowland
- Ail safle – Christine Evans

Gwobr Cyflogai 'Yr Ail Filltir'

- Enillydd – Ray Jenkins, Swyddog Gorfodi Tenantiaeth
- Ail safle – Steve Jarrett, Swyddog Tai Lloches

Gweddnewid Cymunedau – Gwobr grŵp:

- Enillydd – Prosiect Garddio Hafod Deg
- Ail safle – Cymdeithas Tenantiaid a Phreswylwyr Pen-y-Dre, Rhymni

Gweddnewid Cymunedau – Gwobr unigol:

- Enillydd – Mike Perry
- Ail safle – Mona Whittaker

Cyflwynwyd gwobr hefyd i Stan Mark, Cadeirydd yr hen Gymdeithas Trigolion Blaen Cefn-y-pant, am gyfraniad hirsefydlog i'w gymuned.

Noddwyd nifer o'r gwobrau gan y partner cyflenwi un ffynhonnell i'n rhaglen Safon Ansawdd Tai Cymru – Robert Price Builders' Merchants, ynghyd â'i gyflenwyr: Worcester Bosch, Seren Electrical, Nuaire, Quinn Radiators a Solar Windows Ltd.

Ar y noson hefyd cafodd ffilm newydd, sy'n dangos rhai o'r cyflawniadau ar draws Cartrefi Caerffili yn y flwyddyn ddiwethaf, ei dangos am y tro cyntaf. Gallwch wyllo'r ffilm ar YouTube ar: <https://www.youtube.com/watch?v=w2dRihlviaY>

Llongyfarchiadau i'r holl enillwyr a'r rheiny a gyrhaeddodd yr ail safle!

Symud cartref?

Beth mae angen ichi ei wneud a sut i osgoi unrhyw bethau cas annisgwyl.

Mae'n bosibl eich bod wedi penderfynu symud am nifer o resymau. Naill a'i rydych chi'n symud i gartref arall sy'n eiddo i'r cyngor neu un sy'n eiddo i landlord arall neu'n prynu cartref ichi'ch hun, dyma rai pethau mae angen ichi eu gwneud ymlaen llaw.

Cofiwch – os ydych chi'n cyfnewid cartrefi gyda rhywun arall, mae'n rhaid i chi gael caniatâd yn gyntaf gan eich landlord chi a'u landlord nhw.

Pethau i'w gwneud cyn ichi symud:

- Rhaid ichi **roi o leiaf 4 wythnos o rybudd inni** – mae angen ei anfon mewn ysgrifen at eich swyddfa tai leol. Os byddwch yn gadael eich cartref cyn dyddiad diwedd y denantiaeth, fel arfer caiff yr holl rent nes diwedd y cyfnod o 4 wythnos ei godi arnoch chi.
- **Rhowch eich cyfeiriad anfon ymlaen inni** – er mwyn inni allu cysylltu â chi yn y dyfodol, os bydd angen inni wneud. Er enghraifft, os oes angen inni ddychwelyd unrhyw ordaliad.
- **Gwnewch yn siŵr bod eich cyfrif rhent yn gyfredol** – os byddwch yn gadael unrhyw ddyled ar ddiwedd eich tenantiaeth, byddwn yn mynd ati i geisio cael yr arian yn ôl gennych chi.
- **Gwnewch yn siŵr y gadewch eich cartref yn lân ac yn daclus ac mewn cyflwr da** – os bydd yn rhaid inni ei lanhau, mynd â sbwriel rydych wedi'i adael neu atgyweirio unrhyw ddifrod i'r eiddo, mae'n debyg y bydd yn rhaid ichi dalu am unrhyw waith a wnawn.
- **Pan fyddwch chi'n gadael, mae'n rhaid i bawb oedd yn byw yn y cartref (gan gynnwys anifeiliaid anwes!) symud allan.**
- Os ydych chi wedi gwneud unrhyw welliannau eich hun, rhaid ichi adael yr eiddo fel y mae, neu ei adfer i'w gyflwr gwreiddiol. Mae'n rhaid gadael rhai gwelliannau, fel gwres canolog. Cysylltwch â'ch swyddfa tai i gael mwy o gyngor.

Faint allai gostio os ydych chi'n gadael eich cartref mewn cyflwr gwael?

Dyma rai enghreifftiau:



Negeseuon testun newydd am atgyweiriadau

Rydyn ni'n chwilio o hyd am ffyrdd i wella'r ffordd rydyn ni'n gweithio a'r gwasanaeth a gewch fel tenantiaid. Ein datblygiad diweddaraf yw lansio gwasanaeth negeseuon testun i'n tîm Gweithrediadau Atgyweirio Tai.

Ar ôl i denantiaid roi gwybod am atgyweiriad neu angen am apwyntiad syrfêwr i'r Tîm Atgyweiriadau Canolog, byddan nhw'n cael dwy neges destun. Caiff y neges gyntaf ei hanfon ar ôl rhoi gwybod am yr atgyweiriad, fel cadarnhad o'r apwyntiad, a chaiff yr ail neges ei hanfon i'w hatgoffa 24 awr cyn yr apwyntiad.

Os bydd hyn yn llwyddiannus, mae'n bosibl y byddwn yn edrych ar gyflwyno negeseuon testun i feysydd gwasanaeth eraill yng Nghartrefi Caerffili.



Ydych chi'n byw mewn
eiddo cymdeithasol?
Awydd **cyfnewid** cartref?



HomeSwapper yw'r gwasanaeth cyfnewid cenedlaethol **mwya**f ar gyfer tenantiaid tai cymdeithasol sydd eisiau cyfnewid cartrefi yn **lleol** a **chenedlaethol**.

- 9/10 yn darganfod cartref o fewn 24 awr
- Gweld pawb sy'n cyd fynd efo'ch dewis yn syth
- Chwilio am bob cyfnewidiad yn lleol neu'n genedlaethol
- Pob aelod ar gyfartaledd yn darganfod 100+ o gartrefi
- Miloedd o gartrefi yn cael eu hychwanegu bob wythnos
- Creu eich aml-gyfnewidiadau eich hun gyda'n teclynau unigryw



www.homeswapper.co.uk

Rhaglen Safon Ansawdd Tai Cymru'n dal i weddnewid cartrefi, bywydau a chymunedau



Disgyblion o Ysgol Gynradd Fochriw yn cael eu poteli dŵr

Mae ein rhaglen gwelliannau Safon Ansawdd Tai Cymru'n dal i weddnewid cartrefi tenantiaid, yn ogystal â bywydau pobl leol a'r cymunedau lle maen nhw'n byw.

Yn ystod blwyddyn ariannol 2015/16 buddsoddodd £25 miliwn mewn gwelliannau i gartrefi tenantiaid ar draws y fwrdeistref sirol. Mae hyn mwy na dwywaith y swm a wariwyd gan y cyngor ar ei raglen gyfalaf tai flaenorol. Cafodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili £7,340,000 o Lwfans Atgyweiriadau Mawr Llywodraeth Cymru am flwyddyn ariannol 2016/17 ac mae hyn wedi cyfrannu at welliannau Safon Ansawdd Tai Cymru. Hefyd, yn ddiweddar rydyn ni wedi dechrau arolygu eiddo yn ein cynlluniau tai lloches wrth baratoi i ddechrau ar welliannau iddyn nhw yn y flwyddyn ariannol nesaf.

Rydyn ni hefyd wedi bod yn gwneud popeth a allwn i sicrhau bod yr arian a fuddsoddir yn cael ei ddefnyddio i ddarparu buddion ehangach ledled y fwrdeistref sirol. Er enghraifft, mae nifer o swyddi a chyfleoedd hyfforddi wedi cael eu creu o ganlyniad uniongyrchol i raglen Safon Ansawdd Tai Cymru. Hyd yma, mae 108 o swyddi amser llawn parhaol newydd wedi cael eu creu gyda'r cyngor, ei gontractwyr penodedig a'i bartner cyflenwi. Hefyd cynigiwyd nifer o gyfleoedd am leoliadau gwaith a chrëwyd 25 o brentisiaethau trwy raglen Safon Ansawdd Tai Cymru.

Mae ein contractwyr a'n partner cyflenwi hefyd wedi rhoi cymorth i ysgolion a phrosiectau cymunedol lleol, fel rhodd 120 o boteli dŵr gan Robert Price Builders' Merchants, ein partner cyflenwi un ffynhonnell, i Ysgol Gynradd Fochriw yn gynharach eleni. Rhoddwyd y poteli dŵr i helpu i hybu byw'n iach ymysg y disgyblion, yn ogystal â'u helpu i hydradu eto ar ôl eu menter ddyddiol 'Milltir o gwmpas y Man Chwarae'.



Prentisiaid SATC gyda'r Cyng. David Poole (Aelod Cabinet dros Dai) a Marcus Lloyd (Rheolwr SATC a Strategaeth Seilwaith)

Hoffech chi gael mwy o newyddion a diweddariadau rheolaidd oddi wrth Gartrefi Caerffili?

Yn ddiweddar rydyn ni wedi lansio gwasanaeth newydd sy'n darparu negeseuon e-bost a bwletin newyddion DI-DÂL yn syth i'ch cyfeiriad e-bost.

I danysgrifio i'r gwasanaeth hwn cliciwch ar y ddolen isod, ychwanegwch eich cyfeiriad e-bost a dewiswch 'Tai' ynghyd ag unrhyw bynciau eraill mae gennych ddiddordeb ynddyn nhw.

<https://public.govdelivery.com/accounts/UKCAERPHILLY/subscriber/new>



**Llinell Gymorth
Byw Heb Ofn**

Darparu gwybodaeth a chefnogaeth cyfrinachol ynghylch trais domestig, trais rhywiol a thrais yn erbyn merched yng Nghymru

**Live Fear
Free Helpline**

Providing confidential support and information on domestic abuse and sexual violence and violence against women in Wales

0808 80 10 800

Helpu i ostwng biliau ynni tenantiaid

Dros y blynyddoedd diwethaf mae arian sylweddol wedi cael ei fuddsoddi mewn gwneud cartrefi tenantiaid ar draws y fwrdeistref sirol yn fwy ynni effeithlon. Rydyn ni wedi gwneud hyn trwy weithio mewn partneriaeth â nifer o gwmnïau ynni, yn ogystal â chyflwyno ceisiadau llwyddiannus am gyllid oddi wrth Lywodraeth Cymru.

Treffilip oedd y drydedd ardal yn y fwrdeistref sirol i fanteisio ar gais llwyddiannus am arian i gynllun Arbed Llywodraeth Cymru, yn dilyn cynlluniau blaenorol yn Fochriw a Llwynceilyn. Mae oddeutu £2.5 miliwn wedi cael eu buddsoddi mewn gwneud cartrefi'n fwy ynni effeithlon yn Nhreffilip. Roedd y gwaith yn cynnwys inswleiddio allanol, cyngor ar ynni ac optimeiddiwyd foltedd.

Buddsoddwyd oddeutu £1.2 miliwn mewn gosod inswleiddio allanol ar waliau 184 o gartrefi yng Ngelligaer, Pontlotyn a Gilfach. Gwnaethpwyd y gwaith hwn fel rhan o'r cynllun Rhwymedigaeth Cwmni Ynni, a chyfrannodd Eon £312,000, ar amcangyfrif, i'r rhaglen.

Mae'r Rhwymedigaeth Cwmni Ynni yn gynllun effeithlonrwydd ynni gan y llywodraeth sydd â'r nod o helpu i leihau allyriadau carbon a mynd i'r afael â thlodi tanwydd. O dan y cynllun, mae cyflenwyr ynni mwy yn darparu mesurau effeithlonrwydd ynni i gartrefi a rhoddir targedau iddyn nhw ar sail eu cyfran o'r farchnad nwy a thrydan domestig.



Yn ail gam rhaglen Rhwymedigaeth Cwmni Ynni Eon disgwylir i oddeutu £2 filiwn gael eu gwario ar wella effeithlonrwydd ynni a golwg cartrefi ym Mharc Lansbury. Mae arolygon yn cael eu cynnal ar yr ystâd ar hyn o bryd i ganfod pa waith y gellir ei wneud.

Ffyrdd hawdd o arbed ynni ac arian gartref



Hyd yn oed os nad yw'ch cartref yn un sydd wedi cael budd o waith effeithlonrwydd ynni, mae rhai pethau syml y gallwch eu gwneud gartref i ddefnyddio llai o ynni a gostwng eich biliau. Dyma ychydig o awgrymiadau:

- Gwnewch yn siŵr bod eich cwmni trydan a nwy yn cynnig y tariff ynni rhataf. Hefyd, edrychwch ar wefannau cymharu i sicrhau eich bod chi'n cael y fargen orau.
- Caewch y llenni wrth iddi nosi i gadw'r gwres i mewn.
- Peidiwch â sychu dillad ar reiddiaduron – defnyddiwch lein ddillad dros y bath neu ffrâm sychu.
- Peidiwch â berwi mwy o ddŵr nag sydd ei angen yn y tegell (ond gwnewch yn siŵr bod y dŵr yn gorchuddio'r elfen).
- Rhowch baneli adlewyrchu neu ffoil alwminiwm y tu ôl i reiddiaduron.
- Ceisiwch beidio â rhoi celfi o flaen rheiddiaduron.
- Wrth goginio, dewiswch yr hob cywir i'r sosban a choginiwch gyda chloriau ar y sosbenni.
- Trowch eich thermostat i lawr dim ond un radd (gallai hyn arbed £65 y flwyddyn ar gostau gwresogi!).
- Diffoddwch bethau! Gwnewch yn siŵr fod offer trydanol, fel setiau teledu ac ati, wedi'u diffodd pan nad ydych chi'n eu defnyddio; peidiwch â'u gadael yn y modd parod.

Arolygu gerddi

Rydyn ni eisiau gwella cymunedau lleol a'u gwneud yn lleoedd mae pobl yn falch i fyw ynddyn nhw. Er bod y rhan fwyaf o'n tenantiaid yn edrych ar ôl eu gerddi'n ofalus iawn, weithiau mae llond llaw o erddi blêr sy'n effeithio ar olwg ardal gyfan.

Dylech gofio ein bod ni'n cynnal arolygiadau rheolaidd ledled y fwrdeistref sirol i wirio cyflwr gerddi tenantiaid. Os gwelir bod gardd mewn cyflwr annerbyniol byddwn yn ysgrifennu at y tenant i'w atgoffa o'r rhwymedigaeth sydd arno i'w chynnal ac i ofyn i'r sefyllfa gael ei hunioni.

Cofiwch – mae cadw'ch gardd, cwrt blaen neu fan arall sy'n gysylltiedig â hi (fel llwybrau neu risiau) mewn cyflwr da ac yn rhydd rhag sbwriel yn un o amodau'ch cytundeb tenantiaeth. Os nad ydych yn bodloni unrhyw un o amodau'ch cytundeb tenantiaeth mae'n bosibl y byddwn yn cymryd camau cyfreithiol.

Os ydych chi'n cael anawsterau wrth gynnal a chadw'ch gardd, cysylltwch â'ch swyddfa tai i drafod hyn.

Hoffem wybod, pe bai gwasanaeth garddio ar gael, a fydddech chi'n ei ddefnyddio? Cysylltwch i roi'ch barn inni dros y ffôn: 01443 864262 neu drwy e-bost: ymholiadausac@caerffili.gov.uk

Buddsoddi mwy na £16 miliwn mewn tai fforddiadwy yn ardal Coed Duon

Mae cydweithio rhwng ein Tîm Strategaeth Tai a Grŵp Pobl, un o'n partneriaid cymdeithas tai, wedi arwain at nifer o ddatblygiadau tai fforddiadwy newydd yn ardal Coed Duon. Gyda'i gilydd mae'r cynlluniau hyn yn cyfateb i gyfanswm buddsoddi o fwy na £16 miliwn; sicrhawyd £5.8 miliwn o hyn trwy raglen Grant Tai Cymdeithasol Llywodraeth Cymru.

Diolch i ddatblygiadau diweddar a pharhaus yng Nghoed Duon mae 117 o gartrefi fforddiadwy newydd ar draws amrywiaeth o fathau o ddeiliadaeth, o rentu cymdeithasol i berchentaeth cost isel a gwerthiannau ar y farchnad agored. Mae'r datblygiadau hyn yn cynnwys eiddo o wahanol fathau a meintiau, gan gynnwys Cwmgelli Lodge, cyfleuster â lle i 22 o bobl iau â dementia. Mae datblygiadau eraill hefyd yn cynnwys cartrefi sydd wedi'u haddasu'n benodol i ddiwallu anghenion teuluoedd unigol. Mae datblygiadau tai fforddiadwy Pobl yn ardal Coed Duon yn cynnwys cynlluniau ar Woodbine Road, Oak Terrace, Heol Waunborfa, Thorncombe Road a safle hen Ysgol Iau Coed Duon.

Yn ogystal â darparu cartrefi fforddiadwy ychwanegol i bobl leol, mae'r datblygiadau hyn hefyd wedi darparu nifer o fuddion eraill, gan gynnwys swyddi a chyfleoedd hyfforddi.



Datblygiad Woodbine Road

Rhoddwyd cymorth hefyd i nifer o grwpiau a mentrau lleol, gan gynnwys ffensys a roddwyd i Ysgol Gyfun Coed Duon a thîm pêl-droed lleol, yn ogystal â dymchwel hen gwt adfeiliedig y Geidiaid.

Newidiadau i'r ffordd mae pobl yn gwneud cais am dai cymdeithasol

Lansiwyd Cofrestr Tai Gyffredin a Pholisi Dyrannu Tai Gyffredin Caerffili ar ddydd Llun, 5 Rhagfyr. Mae hyn yn golygu y bydd y broses o wneud cais am dai cymdeithasol yn llawer symlach a chyflymach erbyn hyn, gan mai dim ond un ffurflen gais y bydd yn rhaid i ymgeiswyr ei llenwi i wneud cais am gartref gydag un neu fwy o landlordiaid cymdeithasol yn y fwrdeistref sirol.

Y cymdeithasau tai partner sydd wedi gweithio gyda ni i gyflwyno'r Gofrestr Tai Gyffredin a'r Polisi Dyrannu Tai Gyffredin yw Aelwyd, Cadwyn, Charter, Derwen, Linc-Cymru, Unedig Cymru a Wales & West.

Erbyn hyn mae polisi dyrannu tai pob landlord cymdeithasol wedi cael ei ddisodli gan y polisi newydd. Mae ymgeiswyr oedd yn bodoli eisoes y mae angen cartref arnynt o hyd, ac a ymatebodd i'r ymarfer ailgofrestru yn ystod yr haf, wedi cael eu hailasesu a'u

trosglwyddo i'r un rhestr aros. Bydd pob ymgeisydd newydd yn awr yn cael ei asesu o dan y polisi newydd. Mae'r holl ymgeiswyr ar yr un rhestr yn cael eu gosod mewn un o dri band blaenoriaeth sy'n cyfateb yn agos â'u hangen o ran tai. Fel arfer yr ymgeiswyr yn y band uchaf fydd yn cael cynnig llety gyntaf.

Bydd yn ofynnol i ymgeiswyr gwblhau a chynnal eu ceisiadau am gartref trwy wefan sydd newydd gael ei datblygu o'r enw Chwilio Cartref Caerffili. Mae toreth o wybodaeth arall ar gael ar y wefan hefyd, gan gynnwys sut i gofrestru am gartref, sut mae ceisiadau'n cael eu hasesu, yr ardaloedd lle mae'r tai yn sefyll a phroffil o bob ardal.

Gellir gweld mwy o wybodaeth ar wefan y cyngor neu ar wefan Chwilio Cartref Caerffili. Neu gallwch gysylltu â Thîm Asesiadau'r Gofrestr Tai Gyffredin trwy ffonio 01443 873521 neu drwy e-bost at CHR@caerffili.gov.uk

Er ein bod yn gwneud ein gorau i sicrhau bod y wybodaeth yn y cylchlythyr hwn yn gywir, weithiau rydym yn cael pethau'n anghywir. Dylech wirio gyda ni yn gyntaf bob amser!